**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1284 (Cy. 323)

# CYNLLUNIO SEILWAITH, CYMRU

## Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy (Diwygio) (Cymru) 2021

| | | |
|---|---|---|
| *Gwnaed* | - - - - | *17 Tachwedd 2021* |
| *Yn dod i rym* | - - | *19 Tachwedd 2021* |

Mae cais wedi ei wneud, o dan baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio 2008(**1**), i Weinidogion Cymru yn unol â Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Newid a Dirymu Gorchmynion Caniatâd Datblygu) 2011(**2**) ar gyfer newid ansylweddol i Orchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017(**3**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i effaith y newid ar Orchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017 fel y'i gwnaed yn wreiddiol ac maent yn fodlon nad yw'r newid yn sylweddol.

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried y cais, yr ymatebion i'r cyhoeddusrwydd a'r ymgynghori a oedd yn ofynnol gan reoliadau 6 a 7 o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Newid a Dirymu Gorchmynion Caniatâd Datblygu) 2011, wedi penderfynu gwneud y newid a gynigir yn y cais.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 2(1) a (9) o Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio 2008, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy (Diwygio) (Cymru) 2021 a daw i rym ar 19 Tachwedd 2021.

### Diwygio Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017 ("Gorchymyn 2017") wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 2 o Ran 2 o Atodlen 1 i Orchymyn 2017 rhodder "The authorised development must be commenced no later than 29 March 2024."

(**1**) 2008 p. 29. Diwygiwyd paragraff 2 gan baragraff 4 o Atodlen 8 i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23), gan baragraffau 1 a 72 o Atodlen 13 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20), gan adran 28 o Ddeddf Seilwaith 2015 (p. 7), a chan baragraff 8(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).

(**2**) O.S. 2011/2055. Gwnaed diwygiadau perthnasol i'r offeryn hwn gan O.S. 2012/635, ac O.S. 2015/760. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(**3**) O.S. 2017/330, fel y'i cywirwyd gan O.S. 2017/969.

*Julie James*
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

17 Tachwedd 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017, gorchymyn cydsyniad datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008, yn dilyn cais a wnaed yn unol â Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Newid a Dirymu Gorchmynion Caniatâd Datblygu) 2011 ar gyfer diwygiad ansylweddol o dan baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio 2008. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r terfyn amser y mae rhaid cychwyn y datblygiad a awdurdodir gan y Gorchymyn o'i fewn.